*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro’r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod hybrid o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 14EG MEHEFIN, 2023** am **5.00 PM.**

Bwriedir i’r cyfarfod yma gael ei weddarlledu’n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn yma

| AMSE | EITEM | TUDALEN(NAU) |
|---|---|---|
| 5 Munud | **EITEM 1. DATGANIADAU O FUDDIANT**<br><br>Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor<br><br>1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a<br>2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael. | |
| 5 Munud | **EITEM 2. COFNODION**<br><br>Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023 (4pm a 5pm) a 10 Mai 2023 yn rhai cywir. | 5 - 42 |
| 5 Munud | **EITEM 3. CYHOEDDIADAU** | |
| | **LLYWODRAETHU AGORED:** | |
| 10 Munud | **EITEM 4. DATGANIADAU**<br><br>Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet: | |
| 20 Munud | **EITEM 5. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU**<br><br>Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.<br><br>(**Nodwch:** Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.) | 43 - 50 |
| | **ADRODDIADAU'R SWYDDOGION** | |
| 25 Munud | **EITEM 6. GWRTHSEFYLL LLIFOGYDD**<br><br>Derbyn adroddiad a chyflwyniad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen. | 51 - 72 |
| 10 Munud | **EITEM 7. RHAGLEN WAITH Y CYNGOR 2023/24**<br><br>Trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu. | 73 - 86 |
| 10 Munud | **EITEM 8. MECANWAITH RHOI GWYBOD AM RYBUDD O GYNNIG**<br><br>Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu. | 87 - 92 |
| 10 Munud | **EITEM 9. SEFYDLU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS AR GYFER CWM TAF MORGANNWG-TREFNIADAU TROSOLWG A CHRAFFU AR Y CYD**<br><br>Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu | 93 - 112 |
| 10 Munud | **EITEM 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/2023**<br><br>Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu. | 113 - 128 |
| 45 Munud | **EITEM 11. RHYBUDD O GYNNIG**<br><br>**Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol** S Trask a K Johnson:<br><br>Mae unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn cael effaith fawr ar iechyd meddwl pobl o bob oed, dyma broblem sy'n dod i'r amlwg yn fwy aml ers pandemig coronafeirws. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cronfa tair blynedd gwerth £500,000 bob blwyddyn er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem yma ym mhob rhan o Gymru.  Hyd yn hyn, dim ond £22,727 sydd wedi cael ei | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddyrannu i ardal Rhondda Cynon Taf yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae hyn yn cyfateb i 9c fesul person yn RhCT. Mae CBSRhCT wedi dyrannu'r swm bach yma i grwpiau lleol yn rhan o'i Gronfa Rhwydweithiau Cymdogaeth. Rydyn ni'n canmol gwaith y grwpiau cymunedol bach yma ond rydyn ni o'r farn nad yw'r lefel cyllid presennol gan Lywodraeth Cymru'n ddigonol er mwyn cael effaith eang ar drigolion.<br><br>Bydd y pecyn cyllid 3 blynedd gwreiddiol yn dod i ben yn dilyn blwyddyn ariannol 2023/2024.<br><br>Felly, rydyn ni'n cynnig bod:<br><br>• Y Cyngor yma'n nodi bod unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn cael effaith niweidiol ar iechyd meddwl nifer o drigolion RhCT, a dydy cyllid Llywodraeth Cymru ddim yn ddigon i allu gwneud gwahaniaeth.<br><br>• Y Cyngor yma'n galw ar yr Arweinydd i ysgrifennu at Eluned Morgan AS yn gofyn bod lefel y cyllid yn cynyddu eleni fel bod modd gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau'r trigolion hynny yn RhCT a fydd yn elwa o'r cyllid. | |
| | **EITEM 12. MATERION BRYS**<br><br>Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig. | |

**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol**

**At: Pob Aelod o'r Cyngor**